Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

NETpositive FUTURES

# Data Cyflenwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Er mis Chwefror 2016 mae cyflenwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi bod yn cyrchu Offeryn Cynllunio Gweithredu Gwerth Cymdeithasol arloesol ar-lein sy'n:

- **Cefnogi cyflenwyr i ddatblygu cynllun gweithredu gwerth cymdeithasol NETpositive ar gyfer eu busnes**
- Helpu cyflenwyr i **ddeall y cyfraniad cadarnhaol a wneir gan eu busnes** i'r amgylchedd, y gymdeithas a'r economi
- **Casglu data ar y camau gweithredu gwerth cymdeithasol a gymerir gan gyflenwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd**
- Galluogi Prifysgol Metropolitan Caerdydd i **ddangos cynnydd ar reoli carbon yn y gadwyn gyflenwi**

## Tystiolaeth o effaith

Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n foesegol, gyda gonestrwydd a thryloywder wrth fasnachu ac i roi systemau a rheolaethau effeithiol ar waith i ddiogelu rhag bod unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern yn digwydd yn y busnes neu ein cadwyn gyflenwi.

Mae adolygu cyflenwyr a chynefino'n ystyried Datganiadau Caethwasiaeth Fodern a gofynion Moeseg Cyflenwyr, y'u cyfathrebir i gyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr.

Mae trafod dal a dileu caethwasiaeth fodern yn rhan o'n harchwiliadau cyflenwyr blynyddol a hefyd yn rhan o'r broses sgrinio ar gyfer cyflenwyr newydd.

## Ffigurau pennawd


- **659** CYFLENWYR WEDI'U COFRESTRU
- **2117** CYNLLUNIAU GWEITHREDU WEDI'U CWBLHAU
- Y MAE **82%** OHONYNT YN BBaCh
- **5401** CAMAU GWEITHREDU WEDI'U HYMRWYMO IDDYNT
- **4473** CAMAU GWEITHREDU AR WAITH NEU WEDI'U CWBLHAU
- **1897** DARNAU O DYSTIOLAETH O WEITHREDU
- **100%** YN YMWYBODOL O GAETHWASIAETH FODERN
- **64%** WEDI GWNEUD YMRWYMIAD CYHOEDDUS I WEITHREDU YN ERBYN CAETHWASIAETH FODERN
- **63%** YN YMWYBODOL O'R NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

## Camau Gweithredu Caethwasiaeth Fodern

| Camau Gweithredu Caethwasiaeth Fodern | AR WAITH | WEDI'U CWBLHAU | HEB DDECHRAU | Â THYSTIOLAETH |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu dull cadarn o gael gwared ar Gaethwasiaeth Fodern o'ch cadwyni cyflenwi | 21 | 16 | 30 | 21 |
| Darparu hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern i staff | 17 | 12 | 37 | 17 |
| Ymgysylltu â'ch cyflenwyr ynglŷn â Chaethwasiaeth Fodern | 20 | 14 | 31 | 20 |
| Cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern | 10 | 25 | 30 | 23 |
| Cynllunio ymateb petaech chi'n darganfod Caethwasiaeth Fodern yn eich gweithrediadau busnes | 15 | 12 | 25 | 12 |

## Cyfraddau dethol cyflenwyr ar gyfer rhai materion allweddol

| ENW'R MATER | CYFRADD DDETHOL |
|---|---|
| Rydym yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg neu ddulliau o weithio newydd fel y gallwn nodi arloesedd neu welliannau mewn effeithlonrwydd | 72% |
| Rydym yn canolbwyntio ar Iechyd, Diogelwch a Lles | 70% |
| Rydym yn gwneud gwaith yn hygyrch i bobl o bob cefndir | 62% |
| Rydym yn gosod (neu eisiau gosod) targedau i wella ein cynaliadwyedd | 50% |
| Mae gennym ddiddordeb mewn (neu rydym eisoes yn) cyflogi prentisiaid | 39% |
| Rydym yn awyddus bod ein busnes yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (NDCau). | 26% |




materion a ddetholwyd gan gyflenwyr a gwblhaodd yr offeryn

## Camau gweithredu y mae cyflenwyr eisoes yn eu cymryd

- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn eich sector
- Trefnu sgyrsiau anffurfiol ynghylch cydraddoldeb
- Cefnogi cynlluniau prentisiaeth neu grwpiau difreintiedig yn eich cymuned
- Deall sut y gall eich gweithgareddau busnes gyfrannu at y NDCau
- Sicrhau perchnogaeth lefel uchel o'ch gweithgarwch cynaliadwyedd
- Ymuno â chyrff ymchwil a phrifysgolion i arwain ar arloesi i'ch sector